Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation Service in Wales

# Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru

# Strategaeth Dysgu a Sgiliau ar gyfer Carchardai yng Nghymru

# Adroddiad Blynyddol

Gorffennaf 2019

# Cynnwys


Introduction ........ 3
Prisons in Wales ........ 3
Vision for Learning and Skills in our Prisons ........ 5
Labour Market Information (LMI) ........ 6
Core Delivery Principles ........ 7
The Learner Journey Pathway ........ 7
Activities Assessment ........ 8
Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol ........ 8
Individual Learning Plan ........ 9
Pathway Activities Offer ........ 9
Through the Gate ........ 9
Learner Journey Enabling Responsibilities ........ 10
Learning and Skills Delivery Plan (LSDP) ........ 11
All Wales Prison Projects ........ 11
Integrated Quality Assurance - overview ........ 12
Our vision for excellent quality ........ 12
Quality Management Groups Structure ........ 13
Internal Quality Review (IQR) Process ........ 13
The Quality Improvement Cycle ........ 13
Governance ........ 14
Continual Professional Development ........ 15
Annual Needs Analysis ........ 15
Vocational Training Effectiveness Project ........ 15
Additional Quality Assurance resources ........ 15
Reporting and Assurance ........ 16

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein strategaeth er mwyn darparu dysgu a sgiliau a fydd yn gwneud y canlynol:

- darparu'r sgiliau y mae eu hangen ar unigolion i ryddhau eu potensial, cael cyflogaeth a bod yn asedau i'w cymunedau, a
- gwella lles carcharorion yn ystod eu dedfrydau ac ar ôl eu rhyddhau.

Mae'r strategaeth yn nodi:

- ein gweledigaeth ar gyfer dysgu a sgiliau ledled ein carchardai yng Nghymru
- Gwybodaeth am y Farchnad Lafur sy'n rhoi sail i'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu
- ein trefniadau darparu gwasanaethau presennol
- cynlluniau ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

## Carchardai yng Nghymru

Mae CEM Caerdydd a CEM Abertawe ill dau garchardai adsefydlu lleol Categori B, sy'n cynnwys swyddogaeth remánd. Mae gan CEM Caerdydd gapasiti gweithredol o 820 o ddynion, ac mae gan CEM Abertawe gapasiti gweithredol o 504. Mae'r ddau yn garchardai o Oes Fictoria sydd wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas, ac maent yn cynnwys rhywfaint o adeiladu modern.

Fel carchardai adsefydlu, dynion sy'n bwrw dedfryd o 18 mis neu lai sydd yn CEM Caerdydd ac Abertawe yn bennaf, ac mae ganddynt gyfran helaeth o garcharorion tymor byr ac ar remánd, gyda'r rhan fwyaf yn treulio llai na 3 mis yno. Mae heriau yn dod yn sgil trosiant cyflym y boblogaeth, yn ogystal â symud dynion o fewn y carchar, ac un o'r heriau hynny yw mai dim ond cyfnod byr sydd ar gael i ymgysylltu â'r dynion a darparu ymyraethau ystyrlon, gan gynnwys darpariaeth dysgu a sgiliau. Ein strategaeth ar gyfer darpariaeth yn CEM Caerdydd ac Abertawe yw cynnig unedau "tameidiog" a dull modiwlaidd o hybu ymgysylltu a gwella cymorth, hyd yn oed ar gyfer carcharorion tymor byr iawn.

Mae CEM Brynbuga yn sefydliad hyfforddi categori C, sy'n darparu ar gyfer dynion wedi'u cael un euog o droseddau rhyw a dynion agored i niwed. Mae gan y carchar gapasiti gweithredol o 276. Carchar o Oes Fictoria ydyw, sydd wedi'i leoli yn nhref Brynbuga.

Mae angen i ddarpariaeth Dysgu a Sgiliau CEM Brynbuga fynd ati o ddifrif i gydnabod yr anawsterau y bydd y dynion yn eu cael wrth geisio dod o hyd i swyddi ar ôl cael eu rhyddhau, i nodi'r cyfleoedd sydd ar gael ac i ddarparu cyfleoedd a gweithgareddau perthnasol a phwrpasol er mwyn eu helpu i gael swyddi addas sydd â risg briodol pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Mae hefyd angen i'r ddarpariaeth ystyried anghenion y nifer sylweddol o ddynion a fydd wedi mynd heibio i oedran gweithio pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Ein strategaeth ar gyfer darpariaeth yn CEM Brynbuga yw dysgu tymor hwy, gan gynnwys y Brifysgol Agored.

Mae CEM Prescoed yn garchar agored categori D sydd â chapasiti gweithredol o 230 ac mae wedi'i leoli mewn ardal wledig, tua 3.5 milltir o CEM Brynbuga. Fel carchar agored, mae CEM Prescoed wedi'i neilltuo i ddarparu swyddogaeth adsefydlu ac mae yno ddynion risg isel sy'n cael eu helpu i baratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Bydd y rhain yn cynnwys rhai troseddwyr rhyw. Bydd llawer o ddynion yn gymwys i gael eu rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL).

Nodwedd unigryw yn CEM Prescoed yw Fferm Cilgwri. Mae'n fferm weithiol sy'n cynnwys llaethdy a choedwigaeth, ac mae'n cyflogi 21 o ddynion gan ddarparu sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau iddynt. Mae nifer o gyfleoedd eraill am waith yn CEM Prescoed, gan gynnwys y gegin sy'n darparu prydau bob dydd ar gyfer tua 530 o ddynion yn CEM Prescoed a Brynbuga ac yn cyflogi hyd at 22 o ddynion. Mae bwyty Clink yng Nghaerdydd yn cyflogi tua 30 o ddynion o CEM Prescoed.

Mae ein strategaeth ar gyfer darpariaeth dysgu a sgiliau CEM Prescoed yn cynnwys nodi a darparu ffyrdd arloesol o helpu dynion i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a phrofiad a ddaw yn sgil cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro, ac a fydd yn eu helpu i ddod o hyd i swydd a'i chadw ar ôl cael eu rhyddhau. Mae cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau gwaith cysylltiedig â chyfleoedd cyflogaeth go iawn yn y gymuned yn ganolog i hynny.

Mae CEM Berwyn yn garchar sector cyhoeddus Categori C sydd newydd gael ei adeiladu yn Wrecsam, Gogledd Cymru. Cafodd ei agor yn 2017 ac mae ganddo gapasiti i ddal 2,106 o droseddwyr gwrywaidd hŷn. Bydd un rhan o dair o'r dynion hyn o Ogledd Cymru, a disgwylir y bydd tua dau draean o'r carcharorion yn dod o ardaloedd cyfagos yn Lloegr.

Mae CEM Berwyn yn sefydliad adsefydlu, sy'n darparu amgylchedd diogel a digonol lle caiff carcharorion eu hannog a'u helpu i baratoi ar gyfer dechrau newydd yn eu bywydau. Mae iaith a diwylliant Cymru yn rhan annatod o ddull y carchar cyfan ac mae'r carchar yn chwarae rhan ganolog yn y gymuned, gan ddod â swyddi a chyfleoedd i'r ardal, dal carcharorion yn nes at adref a'u helpu i adsefydlu.

Mae'r carchar yn cynnig dull ac amgylchedd modern, sy'n rhoi'r cyfle i ddefnyddio ffyrdd arloesol o ddarparu dysgu mewn carchar. Caiff y ddarpariaeth Dysgu a Sgiliau ei chyflenwi gan Novus Cambria dan gontract i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, ac mae'n gweithio gyda'r Llywodraethwr i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol ledled y carchar. Mae Dysgu a Sgiliau yn cael eu sefydlu ar draws pob agwedd ar fywyd yn y carchar er mwyn sicrhau bod pob cyfleuster neu weithgaredd yn y carchar yn rhoi cyfle i unigolion ddysgu neu ddatblygu sgiliau newydd.

Mae CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc yn garchar Categori C ym Mhen-y-bont ar Ogwr, De Cymru, ac mae'n dal 1,719 o garcharorion i gyd. Mae 1,439 o'r rheini yn oedolion, 220 o droseddwyr ifanc, ac mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyfleuster ar gyfer dynion sydd wedi'u carcharu am droseddau rhyw a 60 o bobl ifanc.Mae CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc yn cynnig swyddogaeth remánd i droseddwyr rhyw yng Nghymru. Agorodd y carchar ym mis Tachwedd 1997 a hwn yw'r unig garchar preifat yng Nghymru. Caiff ei weithredu gan G4S o dan gontract i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM.

Mae'r carchar yn cynnig cyfundrefn heriol a blaengar mewn amgylchedd modern sydd wedi ymrwymo i leihau nifer y bobl sy'n aildroseddu, a galluogi unigolion i gyflawni eu potensial yn llawn yn eu cymunedau lleol. Mae'r gyfundrefn wedi'i dylunio i adlewyrchu bywyd a gwaith yn y gymuned tu allan i'r graddau mwyaf posibl, ac mae'n seiliedig ar delerau, amodau, arferion a safonau sy'n cael eu cynnig gan weithwyr diwydiannol ac a ddisgwylir ganddynt.

Caiff carcharorion eu hannog i fynd i'r afael â'r hyn sydd wedi achosi iddyn nhw droseddu drwy amryw o raglenni ymddygiad troseddol, gweithdrefnau cynllunio dedfryd, a drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant priodol, yn ogystal â rhaglenni gwaith.

Mae G4S yn gyfrifol am yr holl ddarpariaeth dysgu a sgiliau ac maen nhw'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gael nifer o gymwysterau galwedigaethol achrededig a allai eu helpu nhw i ddod o hyd i waith ar ôl cael eu rhyddhau.

## Gweledigaeth ar gyfer Dysgu a Sgiliau yn ein Carchardai

### Cyflogadwyedd

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu darpariaeth dysgu a sgiliau a llyfrgelloedd mewn carcahrdai yn y sector cyhoeddus yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyfun gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn ariannu darpariaeth dysgu a sgiliau yn CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM sy'n gyfrifol am gomisiynu'r holl ddarpariaeth dysgu a sgiliau yn y chwe charchar yng Nghymru ac mae'r arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi nifer o ymrwymiadau yn *Rhaglen Llywodraeth Cymru: Symud Cymru Ymlaen*. Un o'r prif bethau y canolbwyntir arno yw darparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl i gael mynediad at swyddi. Drwy well addysg a darparu sgiliau am oes, bydd hyn yn torri'r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb y mae llawer o droseddwyr yn ei wynebu yn y tymor hwy. Yn *Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd* - mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnig y sgiliau mae eu hangen ar bobl i ffynnu a llwyddo, ac i newid cymorth cyflogaeth ar gyfer unigolion sy'n barod am swyddi, a'r rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, er mwyn ennill y sgiliau a'r profiad i gael swydd gynaliadwy a'i chadw.Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Gwir Anrhydeddus David Hanson AS adolygu addysg mewn carchardai yng Nghymru ac fe gyhoeddwyrd ei adroddiad *Diwygio Canlyniadau – adolygiad o Addysg i Droseddwyr yng Nghymru* ym mis Mawrth 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r argymhellion a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM i adolygu a gwella darpariaeth addysg mewn carchardai yng Nghymru.

Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a fframwaith Llywodraeth Cymru i gefnogi newid ar gyfer y rheini sy'n debygol o droseddu, *Fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol ymysg y rheini sy'n debygol o droseddu yng*

*Nghymru*, sy'n cydnabod bod lleihau aildroseddu drwy sgiliau a chyflogaeth yn un o'r dulliau mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â throsedd.

Rydyn ni'n credu bod gwella cyfleoedd unigolyn i ddod o hyd i gyflogaeth ystyrlon ar ôl cael ei ryddhau yn rhan hollbwysig o adsefydlu'n llwyddiannus. Felly, mae angen i ni sicrhau bod carcharorion yn cael cyfleoedd i ennill cymwysterau drwy ddarpariaeth dysgu a sgiliau sy'n rhoi'r cyfle gorau posibl iddyn nhw gael swydd sicr ac ystyrlon a'i chadw ar ôl cael eu rhyddhau.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur, ac yn datblygu ac yn cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr, y Ganolfan Byd Gwaith a gwasanaeth cynghori Cymru'n Gweithio, sy'n cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru, er mwyn sicrhau darpariaeth dysgu a sgiliau sy'n arfogi unigolion â sgiliau a fydd yn eu helpu i ddod o hyd i gyflogaeth yn yr ardal maen nhw'n cael eu rhyddhau iddi.

Ein gweledigaeth yw y bydd pob carchar yn sefydliadau dysgu sydd â diwylliant dysgu clir ac amlwg. Rydyn ni eisiau darpariaeth Dysgu a Sgiliau amrywiol sydd o ansawdd da, yn ddeniadol ac yn tanio brwdfrydedd, ac sydd hefyd yn cynnwys cyrsiau Galwedigaethol a Heb fod yn Alwedigaethol a chyrsiau Sgiliau Hanfodol achrededig, yn ogystal â Chyflogadwyedd priodol i'r anghenion sydd wedi'u hasesu ymysg poblogaeth y carcharorion a'r farchnad lafur.

Bydd y blaenoriaethau canlynol yn sail i'r ddarpariaeth Dysgu a Sgiliau:

1. Darparu gwasanaethau Dysgu a Sgiliau o ansawdd uchel sy'n cael eu pennu drwy asesu anghenion unigol y dynion ac anghenion y farchnad lafur y byddant yn cael eu hadsefydlu ynddynt, er mwyn cefnogi ymatal a helpu i leihau aildroseddu
2. Cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr er mwyn gwella rhagolygon cyflogadwyedd carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau
3. Darparu gwasanaeth sy'n gallu cefnogi drwy weithio ar y cyd â phartneriaid eraill, a fydd yn datblygu dysgu a chyflogadwyedd carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa
4. Sefydlu Dysgu a Sgiliau yn y carchardai drwy fodel cyflawni sy'n ddeniadol ac yn ysgogol ac yn diddymu'r hyn sy'n rhwystro dysgu
5. Sicrhau prosesau a chysylltiadau priodol ledled carchardai yng Nghymru a Lloegr er mwyn i ddysgwyr allu parhau i ddatblygu dysgu a sgiliau pan fyddant yn cael eu symud i garchardai eraill.

## Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Fel y nodwyd uchod, rydyn ni o'r farn ei bod yn hanfodol ein bod yn cefnogi'r dynion yn ein carchardai er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl iddyn nhw adsefydlu'n llwyddiannus, drwy eu helpu nhw i wella eu cyflogadwyedd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni sicrhau bod ein darpariaeth dysgu a sgiliau yn berthnasol ac yn effeithiol, ac yn bwrpasol er mwyn diwallu anghenion y dynion ac anghenion y farchnad lafur. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur, nid wrth wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth newydd neu wahanol yn unig, ond yn rheolaidd er

mwyn adolygu, diweddaru a gwella ein darpariaeth yn barhaus. Byddwn yn datblygu ein perthynas â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ymhellach er mwyn manteisio ar eu cysyltiadau â chyflogwyr lleol a chynllunio'n strategol ar sail gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur.

Mae tua 80% o'r carcharorion yn Ne Cymru yn cael eu rhyddhau i ardal De Cymru. Er mwyn pennu darpariaeth addas ledled ein carchardai, rydyn ni wedi defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur sydd wedi dod o gynlluniau sgiliau rhanbarthol De Ddwyrain Cymru a De Orllewin a Chanolbarth Cymru. Rydyn ni hefyd wedi ymgynghori ag EMSI, sef system deallusrwydd o'r farchnad leol sy'n gallu darparu data cadarn a chynhwysfawr am y farchnad lafur er mwyn sicrhau bod gwaith a dysgu mewn carchardai yn cyfateb yn well i gyfleoedd swyddi mewn ardaloedd adsefydlu.

Caiff y ddarpariaeth yn CEM Parc a CEM Berwyn ei darparu dan gontract ac mae'r cyflenwyr (G4S a Novus Cambria) yn rhoi tystiolaeth o ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur fel sail i'r math o ddarpariaeth mae'n nhw'n ei chyflenwi, a all roi'r cyfle gorau posibl i garcharorion gael swyddi ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar.Mae gan CEM Berwyn gysylltiadau â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hefyd.


## Egwyddorion Darparu Craidd

Ein gweledigaeth yw cynnig dysgu cyson ledled y carchardai sydd o blaid darparu'r gweithgareddau mwyaf addas ar gyfer y dynion ac a fydd yn gwella eu rhagolygon o ran swyddi ar ôl cael eu rhyddhau. Bydd rolau a chyfrifoldebau'r rheini y maen angen cymorth arnynt i gefnogi a darparu'r dull newydd yn cael eu nodi'n glir a bydd prosiectau rhanbarthol ehangach yn cael eu darparu er mwyn cefnogi'r strwythur.

### Llwybr Taith y Dysgwyr

Bydd gennym daith dysgwyr gyson ym mhob carchar sy'n cynnwys asesiadau a rhaglen llwybr strwythuredig er mwyn rhoi cyfleoedd i ungolion fynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro dysgu, datblygu eu sgiliau, eu diddordebau a'u hagwedd tuag at waith, a'u helpu i ddychwelyd i'r gymuned gyda gwell sgiliau a gallu a allai arwaih at waith a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Mae'r diagram a'r is-adrannau isod yn dangos taith y rhaglen llwybrau a beth mae pob cam yn ei olygu.

Bydd taith y Dysgwyr yn dibynnu ar ddull cydweithredol rhwng addysg, adsefydlu a seicoleg a bydd hefyd yn dibynnu ar ddatblygu cysylltiadau agosach â'r partneriaid amrywiol sy'n gweithio yn y carchar, gan gynnwys gwasanaethau rheoli troseddwyr CRC ac NPS, hyfforddwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau, ymgynghorwyr Cymru'n Gweithio, PACT, y Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein (BOSS), Gwell Swyddi Gwell Dyfodol, n-ergy, ayb.




## Asesiad o Weithgareddau

Bydd taith y dysgwyr yn dechrau drwy gynnal asesiad dysgu a gweithgareddau ar gyfer yr holl garcharorion yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, a fydd yn asesu lefelau llythrennedd a rhifedd y carcharorion, eu hanawsterau ac anableddau dysgu, ffactorau sy'n eu rhywstro rhag dysgu, a dewisiadau cyflogaeth yn y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau. Caiff dysgwyr eu cyfeirio at y cynghorydd Cymru'n Gweithio ym mhob carchar er mwyn cryfhau'r asesiad a darparu cysylltiadau ar gyfer swyddi go iawn pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Rydyn ni'n defnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) i asesu llythrennedd, rhifedd a llythrenedd ddigidol mewn dau o'n carchardai, ac yn bwriadu cyflwyno hynny yn yr holl garchardai yng Nghymru.

## Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol

Bydd gan yr holl ddysgwyr gynllun gwaith a datblygiad personol sy'n eu dilyn nhw ar eu taith ddysgu, drwy'r system carchardai ac ar ôl cael eu rhyddhau, ac yn cofnodi'r cyrsiau y byddant yn ymgymryd â nhw a'u dewisiadau cyflogaeth yn y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau.

Mae'n bwysig bod yr unigolyn yn rhan o'r broses o lenwi ei LWP yn ystod yr asesiad ac ar ei ôl, a bod y cynllun yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd. Dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar lwybr gyrfa y gall unigolion ei ddilyn yn y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau, a dylai gynnwys y canlynol:

- Asesiad o Sgiliau Hanfodol er mwyn pennu lefelau ac anghenion llythrennedd a rhifedd (WEST)
- Asesiad o anawsterau ac anableddau dysgu, a chymorth ychwanegol angenrheidiol
- Asesiad o anghenion cyflogaeth a photensial, gan gynnwys anghenion sgiliau meddal mewn Cyflogaeth
- Asesiad o addasrwydd i weithio mewn diwydianau ym maes carchardai
- Nodi ffactorau sy'n rhwystro dysgu a chyflogaeth er mwyn rhyddhau potensial a chynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau yn y carchar a gwella cyfleoedd unigolion o gael swyddi ar ôl cael eu rhyddhau
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i garcharorion ynghylch cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa ar ôl cael eu rhyddhau a chyfleoedd gwaith sydd ar gael yn y carchar
- Cyflwyniad gan EAG yng nghyswllt swyddi addas i garcharorion ar ôl cael eu rhyddhau.

Bydd trefniant yn cael ei wneud bod y Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol yn cael ei rannu ar draws adrannau o'r carchar a gyda charchardai eraill gan ddefnyddio cyfleuster y Rhith-Gampws yn y Gymuned. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod cynlluniau dysgwyr yn cael eu trosglwyddo i'r gymuned a bod modd cael mynediad at gyfrifon WEST ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

**Cynllun Dysgu Unigol**

Dylai dysgwyr ac athrawon fod â Chynllun Dysgu Unigol ar bapur - dogfen weithiol ar gyfer athrawon a dysgwyr sy'n amlinellu amcanion y cwrs ac y mae'r dysgwr yn ei llofnodi i ddangos ei fod yn deall diben y cwrs. Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd y canlyniad yn cael ei gofnodi yn y Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol.

**Cynnig Gweithgareddau Llwybrau**

Bydd dysgwyr yn dilyn llwybr drwy hyfforddiant dysgu a sgiliau a lleoliadau gwaith yn y carchar, a fydd yn addas ar gyfer eu hanghenion a'u diddordebau unigol. Bydd y llwybr yn darparu ar gyfer y rheini nad yw dysgu yn tanio eu brwdfrydedd ond sy'n dymuno gweithio, drwy ddarparu sesiynau sgiliau mewn gweithdai. Bydd hefyd yn cefnogi'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Drwy'r Drws**

I'r rheini sy'n barod i ymgymryd â chyfleoedd cyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau, ac yn gallu gwneud hynny, bydd Penaethiaid Dysgu a Sgiliau yn ymgysylltu â phartneriaid a chyflogwyr cyn i unigolion gael eu rhyddhau er mwyn gallu eu cefnogi ar ôl eu rhyddhau i mewn i waith neu gyfleoedd hyfforddiant pellach.

Bydd Penaethiaid Dysgu a Sgiliau a'r Gwasanaethau Prawf yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod llwyddiannau a dyheadau dysgwyr yn cael eu rhannu a'u deall gan Reolwyr Troseddwyr cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar, a bod modd adeiladu ar hynny yn y gymuned. Mae datblygiad gallu dysgu digidol mewn carchardai, fel y Rhith-Gampws yn y Gymuned, sy'n cysylltu rheolaeth achosion NOMIS â'r Rhith-Gampws, a chyflwyno Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) yn mynd ati'n fwyfwy i helpu i drosglwyddo gwybodaeth a lleihau dyblygiad ar gyfer y rheini sydd dan oruchwyliaeth brawf a thu hwnt.

Bydd ymgynghorydd cefnogaeth Rhwydweithiau Dyfodol Newydd yn datblygu cysylltiadau â'r Gyfnewidfa Busnes Addysg a Busnes Cymru er mwyn ymgysylltu â chyflogwyr a fydd yn cynnig swyddi i ddynion pan fyddant yn cael eu rhyddhau.

Bydd y Gwasanaethau Carchardai a Phrawf yn datblygu cysylltiadau â gwasanaeth cynghori Cymru'n Gweithio a Chymorth Swyddi Cymru, rhaglen cyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2020, a fydd yn gweithio gyda throseddwyr yn y gymuned i gynyddu'r niferoedd sydd mewn cyflogaeth.Cymru'n Gweithio fydd y fecanwaith atgyfeirio ar gyfer y ddarpariaeth hon.Hyd at fis Ebrill 2020, bydd gwasanaethau prawf yn parhau i gyfeirio'n uniongyrchol at y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd.

Mae'r rhaglen Parod i Weithio wedi cael ei datblygu drwy Ddysgu a Sgiliau a'i chefnogi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cymru'n Gweithio a BOSS, yn ogystal â phrosiect Gwell Swyddi Gwell Dyfodol yn Abertawe ac Acorn Recruitment yng Nghaerdydd, i ddatblygu cysylltiadau cyflogadwyedd go iawn gyda chyflogwyr ar gyfer yr holl hyfforddiant galwedigaethol.

## Cyfrifoldebu o ran Galluogi Teithiau Dysgwyr

Er mwyn cyflawni teithiau dysgwyr effeithiol, mae angen cefnogaeth gan holl gyfundrefn y carchar, a dull integredig effeithiol gan yr holl bartneriaid. Mae gan bawb rôl i'w chwarae. Dyma'r cyfrifoldebau sylfaenol:

| **Bydd adrannau dysgu a sgiliau yn gwneud y canlynol** |
| --- |
| Rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i brosesau eraill y ddalfa, fel rheoli hunan-niwed, risgiau diogelwch (cofnodi a rheoli digwyddiadau) a rheoli ymddygiad yn ehangach (Cynllun Addysg Unigol a dyfarniadau), a rheoli achosion (fel mynd i gyfarfodydd adolygu a chynllunio dedfrydau) carcharorion mewn amgylchedd carchar.<br><br>Rhannu canlyniadau'r Asesiad Dysgu a Gweithgareddau a'r Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol â'r Canolfannau Dyrannu, Unedau Rheoli Troseddwyr, Gyrfa Cymru, Hyfforddwyr Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac asiantaethau partner eraill sy'n cynnig darpariaeth cyflogadwyedd.<br><br>Gwneud yn siŵr bod adolygiadau cynnydd rheolaidd sy'n amlinellu dysgu pellach neu anghenion cymorth yn cael eu hadlewyrchu wrth ddiweddaru'r Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol ac yn cael eu rhannu â darparwyr gwaith a gweithgareddau.<br><br>Cofnodi asesiadau a llwyddiannau pob dysgwr ar y System Gwybodaeth Rheoli Dysgu a Sgiliau, yn y Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol ac yn NOMIS, er mwyn dangos y pellter a deithiwyd a'r cynnydd yn ystod eu hamser yn y ddalfa. Wedyn bydd yr wybodaeth hon ar gael i Reolwyr Troseddwyr a darparwyr gweithgareddau eraill.<br><br>Gweithio'n agos gyda chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol y carchar i ddarparu cymorth priodol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion Dysgu a Sgiliau carcharorion sydd ag anawsterau neu anableddau corfforol.<br><br>Rhoi gwybod i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol am ddeilliannau dysgu carcharorion er mwyn sicrhau bod cofnod pob carcharor yn gyfredol cyn iddo gael ei ryddhau o'r ddalfa. |
| **Bydd llywodraethwyr yn gwneud y canlynol** |
| Cyflawni proses dyrannu gweithgareddau integredig sy'n sicrhau bod carcharorion yn cael eu dyrannu i weithgareddau dysgu a gwaith sy'n diwallu eu hanghenion yn unol â'u Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol.<br><br>Dyrannu carcharorion i weithgareddau yn seiliedig ar yr Asesiad Dysgu a Gweithgareddau er mwyn i garcharorion allu mynd i ddosbarthiadau a gweithdai sy'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau, a'u bod yn gallu mynd iddynt yn rheolaidd er mwyn cael y cymwysterau neu'r sgiliau galwedigaethol. |

| |
|---|
| Gwneud yn siŵr bod carcharorion yn mynd i'r gweithgaredd dynodedig ar amser ac i faint bynnag o weithgareddau y cytunwyd arno, er mwyn sicrhau bod cyrsiau neu gweithgareddau cysylltiedig â gwaith yn cael eu cwblhau yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn y Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol. |
| **Bydd y gwasanaethau prawf yn gwneud y canlynol** |
| Ystyried yr wybodaeth yn y Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol wrth gynllunio prosesau adsefydlu.<br><br>Gwneud yn siŵr bod unrhyw anghenion dysgu a chymorth pellach yn cael eu darparu i reolwyr troseddwyr, diwydiannau ac mewn dysgu a sgiliau, er mwyn eu cynnwys yn y Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol. |
| **Bydd yr Uned Rheoli Troseddwyr yn gwneud y canlynol** |
| Ystyried yr wybodaeth yn y Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol wrth gynllunio dedfrydau.<br><br>Gwneud yn siŵr bod unrhyw anghenion dysgu a chymorth pellach yn cael eu darparu i reolwyr troseddwyr, diwydiannau ac mewn dysgu a sgiliau, er mwyn eu cynnwys yn y Cynllun Gwaith a Datblygiad Personol. |

## Dysgu a Sgiliau - Cynllun Cyflawni Gwasanaeth

Bydd pob carchar yn llunio Cynllun Cyflawni Gwasanaeth 3 blynedd sy'n amlinellu'r strategaeth gyffredinol er mwyn cyflawni darpariaeth, blaenoriaethau allweddol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau ansawdd.  Bydd yn cynnwys y cyrsiau ac yn nodi sut byddant yn cael eu darparu ym mhob ystafell ddosbarth, gweithdy neu ardal gweithgaredd arall ledled y carchar.

Dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar flaenoriaethu gofynion dysgu a gwybodaeth am y farchnad lafur, sy'n canolbwyntio ar helpu dysgwyr i gael swyddi, addysg neu hyfforddiant ar ôl cael eu rhyddhau.

Bydd y cynllun yn cael ei gefnogi gan gwricwlwm manwl sy'n rhestru'r holl gyrsiau a fydd yn cael eu darparu, ac yn amlinellu dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau perfformiad eraill a fydd yn cael eu cyflawni, yn ogystal â nifer y lleoedd dysgu a ddarperir. Y disgwyliad yw y bydd y ddarpariaeth yn gyson drwy gydol y flwyddyn, gyda darpariaeth briodol ar waith i ddirprwyo staff sydd ar wyliau neu'n sâl er mwyn lleihau faint o gyrsiau sy'n cael eu canslo.

Dylai'r Cynllun Cyflawni Gwasanaeth gael ei ddarparu gan y Pennaeth Dysgu a Sgiliau ar y cyd â'r Llywodraethwr, Gwasanaeth Carchardai a Phawr EM, y Cyd-gomisiynydd, Arweinydd y Clwstwr Dysgu a Sgiliau, a'r Pennaeth Lleihau Aildroseddu er mwyn gwneud yn siŵr bod cyd-ddealltwriaeth ynghylch y mathau o gyrsiau a fydd yn cael eu darparu.  Bydd y Cynllun Cyflawni Gwasanaeth yn cael ei ddiweddaru yn ôl y gofyn yn ystod y cyfnod o 3 blynedd.

## Prosiectau Carchardai Cymru Gyfan

Mae angen y canlynol ar gyfer darpariaeth dysgu a sgiliau o ansawdd da:

- Asesiadau priodol nad ydynt yn cael eu hailadrodd yn ddiangen yn ystod dedfryd,
- Cyfleoedd ar gyfer dysgu digidol
- Cyfleoedd i gael cymwysterau safonol diwydiannau.

Mae angen adroddiadau gwybodaeth reoli manwl ar lywodraethwyr, rheolwyr a chomisiynwyr er mwyn pennu a yw'r ddarpariaeth yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer dysgwyr ac er mwyn hysbysu newid a datblygiadau.  Mae ESTYN wedi argymell mewn arolygiadau diweddar y dylid gwella gwybodaeth reoli.

Felly, rydyn ni'n cynnal dau brosiect cyffredinol ar hyn o bryd:

1. System Gwybodaeth Reoli ar y Rhith-Gampws.

   Ar hyn o bryd, rydyn ni'n datblygu System Gwybodaeth Reoli ar gyfer Dysgu a Sgiliau i ddarparu proses gofnodi ac adrodd well ar gyfer yr holl ddarpariaeth dysgu a sgiliau er mwyn diwallu anghenion Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Llywodraethwyr a rheolwyr. Bydd y System Gwybodaeth Reoli ar y Rhith-Gampws yn darparu gwybodaeth er mwyn gwella darpariaeth o ansawdd yn unol ag argymhellion ESTYN a gweithgareddau sicrhau ansawdd.

   Er mwyn sicrhau bod y system yn cael ei chynnal yn fanwl gywir, bydd cydlynydd y System Gwybodaeth Reoli yn gweithio ar draws yr holl garchardai er mwyn helpu'r Pennaeth Dysgu a Sgiliau a swyddogion gweinyddol i fewnbynnu data, rheoli ac adrodd er mwyn rhoi sicrwydd i gyd-gomisiynwyr. Hefyd, mae rhywfaint o adnoddau ychwanegol ar gyfer swyddogion gweinyddol wedi cael eu darparu.

2. Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST)

   WEST yw'r broses ar-lein o asesu llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol y mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod pob darparwr addysg ôl-16 yn eu defnyddio.  Mae'r cynllun peilot - tystiolaeth o gysyniad - i gyflwyno WEST yn CEM Caerdydd wedi cael ei gwblhau ac rydyn ni wedi cyflwyno WEST yn CEM Abertawe.  Y camau nesaf yw rhoi WEST ar waith yn y 3 charchar arall yng Nghymru a pharhau â'r gwaith datblygu er mwyn rhoi WEST ar y rhestr gymeradwy ar y Rhith-Gampws.

# Sicrwydd Ansawdd Integredig - trosolwg

## Ein gweledigaeth ar gyfer ansawdd ragorol

Byddwn yn datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd a fydd yn darparu dysgu a sgiliau o ansawdd da, a diwylliant o welliant parhaus a datblygiad proffesiynol ar draws y carchardai.  Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn cynnwys hunanasesu, adolygu ansawdd mewnol, gweithgareddau sicrwydd ac adroddiadau, a bydd yn cyd-fynd â Fframwaith Arolygu Cyffredinol Estyn ac argymhellion diweddar Arolygiaeth Carchardai EM/Estyn.

Byddwn yn cymharu ein darpariaeth yn erbyn cymaryddion cenedlaethol mewn addysg gymunedol er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth yn rhagorol.  Byddwn yn mynd ati'n barhaus i ofyn am farn carcharorion a staff y carchar am y math o ddarpariaeth dysgu, sgiliau a chyflogadwyedd er mwyn gallu diwallu eu hanghenion yn well.

Bydd y fframwaith yn cynnwys strwythur grŵp rheoli sy'n cynnwys gweithgareddau Cymru gyfan a charchardai unigol, sy'n galluogi carchardai i weithio gyda'i gilydd i fynd ati'n barhaus i sicrhau bod ansawdd yn cael ei ddarparu a'i fod yn gwella'n barhaus.

Byddwn yn defnyddio'r System Gwybodaeth Reoli er mwyn cofnodi ac adrodd ar yr holl ddysgu a sgiliau ledled y carchardai mewn modd cyson a chywir. Bydd y System Gwybodaeth Reoli newydd yn ein galluogi ni i ddarparu adroddiadau manwl gywir ar ddangosyddion perfformiad allweddol, ac amrywiaeth o wybodaeth reoli er mwyn ein helpu ni i werthuso ein darpariaeth a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraethwyr a chomisiynwyr.

Un ffactor pwysig yw datblygu sgiliau ein staff drwy ddefnyddio model datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) cynaliadwy, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl staff yn cael hyfforddiant perthnasol bob blwyddyn yn unol â'r amcanion a bennir yng Nghofnod Datblygiad Personol y Staff.

## Strwythur Grwpiau Rheoli Ansawdd

Bydd gennym strwythur Grwpiau Rheoli Ansawdd ar draws y carchardai, a fydd yn cynnwys Grŵp Sicrhau Ansawdd Cymru Gyfan a grwpiau Sicrhau Ansawdd y carchardai unigol.

Bydd Grŵp Rheoli Ansawdd Cymru Gyfan yn cael ei gadeirio gan Reolwr Sicrhau Ansawdd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a bydd y Penaethiaid Dysgu a Sgiliau o bob carchar a Phennaeth y Clwstwr Dysgu a Sgiliau yn mynd iddo. Bydd arbenigwyr ansawdd addysg o ESTYN a Llywodraeth Cymru yn cael eu gwahodd i ymuno â'r grŵp ac efallai y bydd darparwyr addysg i oedolion eraill yn cael eu gwahodd yn ôl y gofyn er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygiadau.

Bydd y grwpiau Rheoli Ansawdd Carchardai yn cael eu cadeirio gan y Penaethiaid Dysgu a Sgiliau a bydd y Penaethiaid Lleihau Aildroseddu, Rheolwr Sicrhau Ansawdd Dysgu a Sgiliau'r carchar, y Rheolwr Diwydiannau a staff arall yn mynd iddynt ôl y gofyn. Bydd partneriaid sy'n darparu dysgu hefyd yn rhan o'r broses.

Bydd y strwythur hwn yn cyd-fynd â Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN a bydd yn galluogi arferion gorau a datblygiadau thematig, ac yn cefnogi gwelliannau ansawdd parhaus.

## Adolygiad Ansawdd Mewnol

Bydd Rheolwr Sicrhau Ansawdd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru yn arwain Adolygiadau Ansawdd Mewnol yn y carchardai ac yn sicrhau bod hon yn broses sy'n cael ei harwain gan gymheiriaid, gan gynnwys Pennaeth y Clwstwr Dysgu a Sgiliau a'r Penaethiaid Dysgu a Sgiliau.

Bydd yr Adolygiadau Ansawdd Mewnol yn bwydo gwaith Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng nghyswllt Fframwaith Sicrwydd Cymru ac yn cael eu cefnogi gan yr Arweinydd Sicrwydd Gweithredol. Bydd Grŵp Rheoli Ansawdd Cymru Gyfan yn goruchwylio ac yn sicrhau ansawdd y broses o sefydlu gweithgarwch Adolygu Ansawdd Mewnol ac yn canolbwyntio'n fwy eang ar ansawdd a fydd yn rhoi budd i bob darparwr dysgu ar gyfer troseddwyr. Bydd telerau defnydd ar gyfer pob un o'r grwpiau yn cael eu datblygu.


## Y Cylch Gwella Ansawdd

Er mwyn cyflenwi darpariaeth o ansawdd da, bydd gweithgareddau gwella yn cael eu cynnal fel cylch parhaus er mwyn sicrhau bod data yn cael ei archwilio a bod barn dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael eu casglu a'u hystyried.  Adroddir yn ôl ar y canfyddiadau i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM ac ESTYN drwy gydol y flwyddyn.



## Llywodraethu

Mae'r strwythur llywodraethu ar gyfer gweithgarwch Sicrhau Ansawdd Dysgu a Sgiliau wedi'i nodi yn y diagram isod:




## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu staff yn fewnol drwy fframwaith DPP briodol sydd wedi'i chysylltu â Chofnod Datblygiad Personol Staff ac yn darparu cyllid ychwanegol. Bydd adborth o'r broses arsylwi yn sicrhau bod datblygiad staff yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd a bydd yn darparu llwyfan er mwyn rhannu arferion gorau rhwng sefydliadau.

## Dadansoddiad o Anghenion

Bydd Dadandoddiad o Anghenion yn cael ei gynnal a bydd yn cynnwys barn dysgwyr, data ynghylch anghenion dysgwyr, barn staff ehangach y carchar a gwybodaeth am y farchnad lafur.

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y Cynllun Darparu Gwasanaeth, Adroddiadau Hunanasesu, Cynlluniau Datblygu Ansawdd a phenderfyniadau rheoli. Bydd tystiolaeth yn cael ei bwydo i mewn i'r Grŵp Rheoli Ansawdd lleol ac yn cael ei defnyddio wrth adolygu cyrsiau fel rhan o brosesau hunanasesu a gwella ansawdd.

### Prosiect Effeithlonrwydd Hyfforddiant Galwedigaethol

Mae arolwg ESTYN o garchar Gaerdydd yn awgrymu y dylai cyrsiau sgiliau meddal gael eu gwerthuso er mwyn pennu a ydynt yn cael effaith ar garcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Rydyn ni wedi cychwyn prosiect i werthuso buddiannau model hyfforddiant galwedigaethol Caerdydd a pha mor effeithiol ydyw, yn enwedig o ran canlyniadau 'sgiliau meddal' yn sgil gyrsiau lles sy'n canolbwyntio ar yr agweddau emosiynol a chymdeithasol ar ddysgu. Mae dwy ran i'r astudiaeth:

1. Gwerthuso darpariaeth fewnol er mwyn pennu effaith model darparu Caerdydd a'r cynnydd o ran 'sgiliau meddal', yn enwedig yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu sy'n cyfrannu at fod yn barod i weithio.
2. Cadw llygad ar ddynion ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau er mwyn pennu a yw'r cyrsiau hyfforddiant galwedigaethol yn y carchar wedi cael effaith ar eu rhagolygon cyflogaeth.

Os bydd y model yn llwyddiannus, ystyrir ei gyflwyno mewn carchardai eraill.

### Adnoddau Sicrhau Ansawdd Ychwanegol

Mae arolygon ESTYN a gweithgareddau sicrwydd diweddar wedi nodi bod angen cryfhau'r gwaith o reoli a darparu ansawdd a dadansoddi data er mwyn rhoi sail i ddatblygiad parhaus. Mae'r fframwaith Sicrhau Ansawdd Integredig wedi cael ei ddylunio i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn a darparu dysgu a sgiliau o ansawdd, yn ogystal â diwylliant o ddatblygiad parhaus ar draws dysgu a sgiliau ym mhob carchar.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i bob carchar roi'r Sicrwydd Ansawdd Mewnol ar waith yn ogystal â'r System Gwybodaeth Reoli newydd ar gyfer adrodd a chofnodi data, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, gan sicrhau egwyddorion ac arferion cyson ym mhob carchar.Rydyn ni wedi buddsoddi mewn adnoddau staff ychwanegol, sef pedair swydd Rheoli Sicrwydd Ansawdd, Cydlynydd y System Gwybodaeth Reoli a gweinyddwyr ychwanegol i ddarparu gwelliannau.

## Adroddiadau a Sicrwydd

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a Llywodraeth Cymru yn trafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n cynnwys y dangosyddion perfformiad ac amcanion datblygu ar gyfer y flwyddyn. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn darparu Cytundeb Lefel Gwasanaeth i'r carchar, sy'n amlinellu'r dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt arm gyfer pob carchar, ac amcanion eraill yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'n ofynnol bod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn darparu adroddiadau chwarterol ar gynnydd a bod pob carchar yn darparu adroddiad data a naratif, a bydd y ddau yma, ynghyd ag adroddiad cyffredinol, yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae swyddogion o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM a Llywodraeth Cymru yn cynnal ymweliadau sicrwydd â phob carchar ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau eu

bod yn cyflawni yn unol â gofynion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.  Caiff sampl ar hap o ffeiliau achos eu dewis a'u harchwilio er mwyn cael tystiolaeth o ddechrau cyrsiau a llwyddiannau, yn ogystal ag asesiadau a phrosesau yng nghyswllt Cynlluniau Dysgu Unigol.  Mae'r ymweliad hefyd yn cynnwys trafodaethau â dysgwyr ac aelodau amrywiol o staff, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a materion.

Caiff adroddiad o unrhyw argymhellion ei baratoi ar ôl yr ymweliad ac fe gaiff ei rannu â'r Llywodraethwr, Penaethiaid Dysgu a Sgiliau a Chyfarwyddiaeth a Chyfarwyddwr Grŵp y Carchar.